CYFRES B1

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Efengyl Luc

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 2: 22-38

Mae'r stori hon yn sôn am:
Dweud "Diolch" wrth Dduw am ei Fab

Stori 1 Dweud Diolch yn y Deml

Os ydyn ni'n cael presant gan rywun, fe ddylen ni ddweud "Diolch" amdano. Aeth Joseff a Mair â'r Baban Iesu i'r Deml yn Jerwsalem i ddweud "Diolch" wrth Dduw am roi Iesu iddyn nhw. Pan oedden nhw yn y Deml, daeth dyn o'r enw Simeon yno. Roedd Duw wedi addo iddo na fyddai'n marw nes iddo weld Iesu Grist. Pan welodd Simeon y baban Iesu, cymerodd ef yn ei freichiau a diolch i Dduw amdano.

Roedd yn hapus iawn gan ei fod wedi gweld

Iesu Grist.

Lliwiwch y geiriau a'r llun.

Gwelodd Mair a Joseff hen wraig o'r enw Anna yn y Deml hefyd. Roedd hi'n addoli Duw trwy'r dydd a'r nos yn y Deml. Pan welodd hi Iesu, fe wnaeth hi ddiolch i Dduw hefyd ac wedyn roedd hi'n dweud wrth bawb amdano.

Ydych chi wedi dweud "Diolch" wrth Dduw am anfon ei Fab, Iesu Grist, atom ar y Nadolig cyntaf?

Enw

DARLLENWCH
Luc 2: 39-52

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu'n tyfu'n fachgen

Stori 2 Tyfu'n fachgen yn Nasareth

Ydych chi wedi bod mewn criw mawr o bobl yn cerdded ar hyd y ffordd? Pawb yn siarad a'r plant yn chwerthin ac yn chwarae. Roedd Mair a Joseff a llawer o deuluoedd eraill yn cerdded adref i Nasareth.

Roedden nhw wedi bod yn Jerwsalem ar adeg arbennig o'r flwyddyn, Gŵyl y Pasg. Doedd Mair a Joseff ddim wedi gweld Iesu ers iddyn nhw adael y ddinas. Roedden nhw'n meddwl ei fod yn y dyrfa gyda'i ffrindiau. Gyda'r nos, aethon nhw i chwilio amdano ond roedd ar goll! Fe aethon nhw yn ôl i Jerwsalem ar unwaith i chwilio amdano.

Ar ôl tri diwrnod o chwilio, daethon nhw o hyd iddo yn eistedd gyda'r athrawon yn y Deml. Roedd e'n gwrando arnyn nhw ac yn gofyn cwestiynau iddyn nhw.

Roedd pawb yn synnu ei fod yn gwybod cymaint am Dduw. Roedd Iesu eisiau bod yn fachgen da a gwrando ar Dduw er mai dim ond deuddeg oed oedd e.

Faint oedd oed Iesu? Lliwich y rhif cywir.

5 8 12 **oed**

Tyfodd Iesu'n fachgen da yn Nasareth. Wrth i ni dyfu'n blant mawr, mae'n rhaid i ni geisio bod yn blant da i'r rhai sy'n gofalu amdanon ni. Mae Duw yn falch os ydyn ni'n blant da.

Lle oedd Iesu'n byw pan oedd yn fachgen bach?

N _ _ _ _ _ _ _ .

Enw

DARLLENWCH
Luc 3: 1-22

Mae'r stori hon yn sôn am:
Ioan yn bedyddio Iesu.

Stori 3 Bedyddio yn Afon Iorddonen

Anfonodd Duw ddyn o'r enw Ioan i ddweud rhywbeth pwysig wrth y bobl. Roedd yn dweud wrth y bobl eu bod nhw wedi gwneud pethau drwg. Dywedodd y dylen nhw ddweud "Sori" am y pethau drwg roedden nhw wedi'u gwneud ac y dylen nhw geisio bod yn dda. Er mwyn iddyn nhw ddangos eu bod nhw eisiau bod yn dda, roedd Ioan yn eu bedyddio yn Afon Iorddonen.

Ydych chi wedi dweud "Sori" wrth Dduw am y pethau drwg rydych chi wedi'u gwneud? Os nad ydych chi, beth am ddweud "Sori, Duw" yn awr? Mae Duw yn barod i faddau ac i'ch helpu chi i fod yn dda.

Un diwrnod, daeth Iesu at Ioan i gael ei fedyddio. Doedd dim angen iddo fe ddweud "Sori" am wneud pethau drwg achos Iesu yw'r unig un yn y byd sydd heb wneud dim byd drwg. Roedd hyn yn ei wneud yn arbennig iawn!

Pan gafodd Iesu ei fedyddio gan Ioan, siaradodd Duw o'r Nefoedd, gan ddangos mewn ffordd hyfryd ei fod yn falch iawn o'i Fab.

Rhowch (✓) neu (✗) i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir.

Doedd Iesu byth yn gwneud pethau drwg. .....

Cafodd Iesu ei fedyddio gan Ioan. .....

Enw

DARLLENWCH
Luc 4: 1-13

Mae'r stori hon yn sôn am:
Dweud "Na" os byddwn eisiau gwneud pethau drwg

Stori 4 Iesu'n cael ei demtio

Aeth Iesu i'r anialwch ar ôl cael ei fedyddio. Mae'r anialwch yn lle poeth a sych a does dim llawer yn tyfu yno. Chafodd Iesu ddim byd i'w fwyta am 40 diwrnod. Roedd eisiau bwyd arno.

Dywedodd y diafol wrth Iesu am droi cerrig yn fara. Roedd Iesu'n gwybod na fyddai Duw eisiau iddo fe wneud hynny. Dywedodd Iesu "Na" wrth y diafol.

Yna, aeth y diafol â Iesu i ben mynydd uchel. Dangosodd holl wledydd y byd iddo. Addawodd y diafol roi'r rhain i gyd i Iesu pe bai'n ei addoli ef. Roedd Iesu'n gwybod bod hyn yn anghywir achos mae'r Beibl yn dweud mai dim ond Duw rydyn ni i fod i'w addoli.

Lliwiwch y geiriau hyn.

Yr Arglwydd dy Dduw a addoli.

Yn olaf, dywedodd y diafol wrth Iesu am ei daflu ei hunan o ben tŵr uchaf y deml achos bod Duw wedi addo ei gadw'n ddiogel. Dywedodd Iesu wrth y diafol bod y Beibl yn dweud na ddylai demtio Duw. Roedd Iesu eisiau bod yn ufudd i'w Dad.

Cofiwch bod Iesu'n gryfach na'r diafol. Os gwnawn ni drystio Iesu, bydd yn ein helpu i ddweud "Na" os byddwn yn cael ein temtio i wneud pethau drwg.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4 a 15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120